Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

17.07.24

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Gwyliau/Absenoldebau Adeg Tymor

Caiff y llythyr hwn ei yrru at ein holl rieni/ofalwyr i ddarparu gwybodaeth ynglŷn phresenoldeb a gwyliau adeg tymor.

Yng Nghymru, rydym am i'n holl ddisgyblion gyflawni llwyddiant, felly mae'n bwysig fod rhieni/ofalwyr yn gwneud eu gorau glas i gefnogi disgyblion i fynychu ysgol am 190 o ddiwrnodiau o fewn y flwyddyn academaidd.
O dan y Ddeddf Addysg(1996) mae'n gyfrifoldeb i rieni/ofalwyr sicrhau fod eu mab/merch yn mynychu ysgol.

Mae presenoldeb ysgol reolaidd yn hanfodol a gall ysgol gael effaith arwyddocaol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn fel y nodir isod:

Presenoldeb 95-100%	Y cyfle gorau o lwyddiant	Mae eich plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu
Presenoldeb 90-95%	Wedi colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu	Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny a gwaith
Presenoldeb 85-90%	Wedi colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu	Gallai eich plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrthych i ddal i fyny a gwaith
Presenoldeb 80-85%	Wedi colli o leiaf 5 ½ wythnos o ddysgu	Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.
Presenoldeb Islaw 80%	Wedi colli o leiaf 7 ½ wythnos o ddysgu	Mae eich plentyn yn colli addysg eang a chytbwys.

Pump diwrnod yn unig o wyliau yn ystod adeg y tymor y bydd yr ysgol yn ei awdurdodi. Bydd absenoldebau ychwanegol a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau yn ystod y tymor yn cael eu cofnodi fel rhai di-awdurdodedig.

Hyderwn y gallwch gefnogi'r polisi ysgol a threfnu gwyliau o gwmpas y 175 o ddiwrnodiau y mae ysgolion ar gau yn ystod y penwythnosau a'r gwyliau, gan gynorthwyo ni i gefnogi'ch plentyn i gyflawni llwyddiant yn yr ysgol.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth/Headteacher